# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant:

## Y dull seicodynamig

| Dull a damcaniaethwyr | Y prif agweddau ar y dull neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant | Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
|---|---|---|
| **Seicodynamig:**<br><br>Freud<br><br>**Geiriau allweddol:**<br><br>- Anymwybodol<br>- Amddiffyniad<br>- Id<br>- Ego<br>- Uwch-ego<br>- Datblygiad seicorywiol | • Mae cymhellion a dymuniadau anymwybodol yn ysgogi ein camau gweithredu.<br>• Pan fydd atgofion drwg yn gwneud eu ffordd i'n hymwybod, byddwn yn datblygu **dulliau amddiffyn**. Mae personoliaeth neu'r hunan yn cynnwys tair rhan: yr **id**, yr **ego** a'r **uwch-ego**.<br>• Yr id yw'r rhan o'r hunan y cawsom ein geni âg o. Caiff ei hysgogi gan fioleg ac mae'n cynnwys ein greddfau a'n hysgogiadau.<br>• Mae'r ego yn rhan o'r hunan sy'n datblygu wrth i ni ddysgu bod terfynau ar yr hyn sy'n dderbyniol a bod yn rhaid i ni aros i'n hanghenion gael eu diwallu.<br>• Caiff camau datblygiad seicorywiol eu nodi gan Freud lle mae'n rhaid i blentyn ddatrys gwrthdaro mewnol er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf. | Credai Freud fod personoliaeth sy'n ffurfio yn ystod blynyddoedd cyntaf bywyd a rhyngweithiadau rhieni neu ofalwyr â phlant yn cael effaith hirdymor ar gyflyrau emosiynol plant. Ef oedd y damcaniaethwr cyntaf i gydnabod bod plant yn mynd drwy gamau yn eu datblygiad. Cafodd Freud ddylanwad uniongyrchol ar ddamcaniaethwyr datblygiadol eraill, fel Erik Erikson. Mae ei safbwyntiau seicodynamig ar ddatblygiad plant wedi cael dylanwad ar ein dealltwriaeth o chwarae fel adnodd ar gyfer mynegi a thyfu.<br>Gwnaeth Freud ysbrydoli pobl eraill i feddwl am chwarae fel dangosydd o ran sut mae pob plentyn yn llunio hanes bywyd unigryw, yn datrys problemau, yn mynegi teimladau ac yn deall pwy ydyw. Mae ffordd o feddwl Freud yn parhau i arwain astudiaethau academaidd mewn amryw feysydd, fel damcaniaeth ymlyniad. |
| **Seicodynamig:**<br><br>Damcaniaeth ymlyniad a Bowlby<br><br>**Geiriau allweddol:**<br><br>- Ymlyniad<br>- Person allweddol<br>- Prif ofalydd<br>- Ansicr<br>- Sicr | • Astudiodd Bowlby bwysigrwydd cydberthynas plentyn â'i brif ofalydd ac effaith hyn ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol.<br>• Credai Bowlby fod cysylltiad rhwng baban sy'n cael ei wahanu wrth ei fam/prif ofalydd ac anawsterau yn nes ymlaen yn ei blentyndod a'i fywyd fel oedolyn.<br>• Mae damcaniaeth ymlyniad yn astudio i ba raddau mae'r plentyn yn ymlynu at y gofalydd a pha mor sicr yw'r plentyn y gall y gofalydd ddiwallu ei anghenion. | Mae person allweddol yn helpu'r plant hynny yn eu grŵp i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal drwy ymateb yn sensitif i'w teimladau ac ymddygiadau. Gallant wneud hyn drwy ddiwallu anghenion emosiynol, rhoi tawelwch meddwl a chefnogi llesiant y plentyn. Mae'n bwynt cyswllt i rieni ac yn meithrin cydberthnasau â'r plentyn. Bydd y person allweddol yn arsylwi ar y plentyn yn rheolaidd er mwyn asesu ei ddatblygiad a nodi unrhyw oedi mewn datblygiad, yn ogystal ag a oes angen cymorth ychwanegol ar y plentyn. Byddant hefyd yn cyfrannu at weithgareddau cynllunio yn seiliedig ar anghenion unigol pob plentyn. Drwy gynnwys person allweddol, gall plant deimlo'n gartrefol, yn fodlon eu byd ac yn fwy hyderus i fentro. |